# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arweiniad – y wybodaeth i'w darparu pan fo Unigolion Cyfrifol yn newid

Mehefin 2017

**TABL CYNNWYS**

Cyflwyniad ..... 3
Cefndir ..... 4
Rhwymedigaethau darparwyr cofrestredig i gydymffurfio â’r gofynion rheoliadol ..... 5
Hysbysiadau dan Reoliad 33 ..... 6
Pa bryd y byddai AGIC yn gofyn am fwy o wybodaeth oddi wrth y darparwr cofrestredig am yr Unigolyn Cyfrifol? ..... 7
Tystysgrif gofrestru ..... 7
Cyfeiriadau ..... 8

## Cyflwyniad

Nod yr arweiniad hwn yw egluro'r fframwaith cyfreithiol o ran yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'n cynnwys yr archwiliadau y mae'n rhaid i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) eu cynnal o fewn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau 10, 13 a 33 (f) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, pan y'i hysbysir am newid i hunaniaeth yr Unigolyn Cyfrifol (gweler y cyfeiriadau ar dudalennau 7 ac 8).

Fel arweiniad yn unig y bwriedir y ddogfen hon. Nid yw'n disodli'r angen i gyfeirio'n uniongyrchol at y darpariaethau cyfreithiol perthnasol. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at "sefydliad" yn cynnwys asiantaeth.

Pe byddai'n well gennych gael copi caled o'r arweiniad hwn, byddwch cystal â chysylltu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC):

Adeiladau'r Llywodraeth / Government Buildings
Parc Busnes Rhyd-y-car / Rhydycar Business Park
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 0300 062 8163 |
| E-bost: | agic@llyw.cymru |
| Gwefan: | www.agic.org.uk |

## Cefndir

Mae swyddogaeth a chyfrifoldebau UnigolynCyfrifol yn amrywio ar draws sefydliadau darparwyr ac, yn aml, penderfynir ar hyn drwy faint sefydliad a/neu natur ei fusnes. Nid yw’r ddeddfwriaeth yn nodi pa gyfrifoldebau y dylai fod gan yr Unigolyn Cyfrifol, ac eithrio’r rhai a nodir yn Rheoliad 10(2)(b)(i) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (gweler y cyfeiriadau ar dudalennau 7 ac 8).

Gallai fod uwch reolwr clinigol mewn rhai sefydliadau, a chyfarwyddwr bwrdd mewn rhai eraill. Gallai’r Unigolyn Cyfrifol fod â’r awdurdod, neu beidio â bod â’r awdurdod, i wneud penderfyniadau strategol (er enghraifft, ynglŷn â staffio, adnoddau, cyllidebau neu safleoedd) ac nid oes unrhyw ofyniad dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 na Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 iddo gael y cyfrifoldeb hwn.

Mae personau cofrestredig dan rwymedigaeth barhaus i redeg a rheoli’r sefydliad perthnasol gyda gofal, cymhwysedd a sgil digonol, a bydd AGIC yn rheoleiddio’r gwasanaeth gan gadw hyn mewn cof. Yn rhan o’r rhwymedigaeth hon, mae gan y darparwr cofrestredig hefyd gyfrifoldeb parhaus i sicrhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn dilyn hyfforddiant priodol er mwyn cael y sgiliau sydd eu hangen i redeg y sefydliad.

Bydd AGIC eisiau cael ei sicrhau bod gan yr unigolyn a enwebir fel yr Unigolyn Cyfrifol nid yn unig y sgiliau a’r profiad personol gofynnol ar gyfer y swyddogaeth, ond hefyd yr awdurdod strategol angenrheidiol yn y sefydliad ar gyfer goruchwylio rheolaeth y sefydliad yn effeithiol.

Bydd AGIC yn disgwyl gweld tystiolaeth o’r materion hyn yng nghymwysterau a CV yr Unigolyn Cyfrifol, manyleb y person, a’r swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swyddogaeth.

Os yw AGIC yn ystyried bod angen mwy o wybodaeth arni am unrhyw un o’r uchod, mewn unrhyw achos arbennig, gallai ei gwneud yn ofynnol i’r unigolyn sy’n rhedeg neu’n rheoli’r gwasanaeth ddarparu’r wybodaeth honno.

## Rhwymedigaethau darparwyr cofrestredig i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol

Ar ôl i ddarparwr gael ei gofrestru, ceir rhwymedigaeth barhaus i redeg y sefydliad gyda gofal, cymhwysedd a sgil digonol. O ran penodi'r Unigolyn Cyfrifol, golyga hyn, yn arbennig, ei bod yn rhaid i'r darparwr sicrhau'r canlynol ynglŷn â'r Unigolyn Cyfrifol:

- ei fod yn parhau i fod yn addas ar gyfer bodloni'r gofynion rheoliadol dan Reoliad 10(3) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 o ran ffitrwydd personol (gweler y cyfeiriadau ar dudalen 7);
- ei fod yn dilyn hyfforddiant perthnasol o bryd i'w gilydd er mwyn cadw'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer y swydd fel sy'n ofynnol dan Reoliad 13(2)(b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (gweler y cyfeiriadau ar dudalen 8);
- fod ganddo'r awdurdod angenrheidiol yn y sefydliad i alluogi iddo oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol.

Pa bryd bynnag y bydd y darparwr cofrestredig yn penodi Unigolyn Cyfrifol gwahanol, yn dilyn cofrestru, y darparwr cofrestredig sy'n gyfrifol dros sicrhau bod yr unigolyn hwnnw:

- yn bodloni'r gofynion ffitrwydd personol dan Reoliad 10(3) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (gweler y cyfeiriadau ar dudalen7);
- yn dilyn hyfforddiant angenrheidiol fel sy'n ofynnol dan Reoliad 13(2)(b) (gweler y cyfeiriadau ar dudalen 8), ac y rhoddir yr awdurdod angenrheidiol iddo i oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth.

Golyga hyn y bydd angen i'r darparwr cofrestredig gael y wybodaeth sy'n ofynnol dan Atodlen 2 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 am yr Unigolyn Cyfrifol, ac mae hyn yn cynnwys:

- Prawf pendant o bwy yw'r person, gan gynnwys ffotograff diweddar;
- Tystysgrif briodol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- Geirdaon ysgrifenedig oddi wrth y naill a'r llall o ddau gyflogwr diweddaraf y person;
- Os bu'r person yn gweithio'n flaenorol mewn swydd a oedd yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rhesymau pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd honno i ben;
- Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol;
- Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth;
- Os yw'r person yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol, manylion cofrestriad y person gyda'r corff (os oes un) sy'n gyfrifol am reoleiddio aelodau o'r proffesiwn gofal iechyd hwnnw.

## Hysbysiadau dan Reoliad 33

Pan benodir Unigolyn Cyfrifol gwahanol i oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth cofrestredig, mae'n rhaid i'r person cofrestredig hysbysu AGIC yn unol â Rheoliad 33 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (gweler y cyfeiriadau ar dudalen 9).

Fel yr eglurwyd uchod, cyfrifoldeb y darparwr cofrestredig yw sicrhau bod unrhyw Unigolyn Cyfrifol newydd yn addas ar gyfer y swydd.

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn berson cofrestredig ac, o ganlyniad, rhan AGIC fydd gwirio cydymffurfiad y darparwr cofrestredig â Rheoliadau 10(3) ac 13 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rhan o'i swyddogaeth rheoleiddio ac arolygu (gweler y cyfeiriadau ar dudalennau 8 a 9).

Yn ymarferol, golyga hyn y gofynnir i ddarparwyr, yn dilyn penodiad yr Unigolyn Cyfrifol, gyflwyno hunanasesiad a datganiad eu bod wedi cynnal y gwiriadau gofynnol. Mae AGIC wedi cyflwyno ffurflen Newid Unigolyn Cyfrifol i gael ei llenwi pan fo'r Unigolyn Cyfrifol yn newid, sydd ar gael yn: https://www.agic.org.uk/sut-i-canslo-neu-gwneud-newidiadau-i-eich-cofrestriad

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gadarnhau bod y gwiriadau perthnasol wedi eu cynnal ar yr Unigolyn Cyfrifol, os yw AGIC yn gofyn hynny iddynt, ac y bydd y darparwyr yn parhau i fodloni eu rhwymedigaethau dan Reoliad 10 ac 13 o ran yr Unigolyn Cyfrifol (gweler y cyfeiriadau ar dudalennau 8 a 9).

Bydd angen i ddarparwyr hefyd roi awdurdod ysgrifenedig i AGIC (pan fo'n briodol) os yw'r Unigolyn Cyfrifol am gael:

(i) cyfrifoldeb dros wneud unrhyw gais dan Adran 15 o'r Ddeddf, megis amrywio neu ddileu amod cofrestru, neu ganslo'r cofrestriad, ac ati;
(ii) cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar ran y darparwr, megis cytuno ar amodau cofrestru, neu wneud sylwadau ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw gamau gweithredu arfaethedig gan AGIC;
(iii) awdurdod ac adnoddau strategol er mwyn rhoi unrhyw ofynion penodol y gellid eu gwneud gan AGIC ar waith, megis cymryd camau unioni ynglŷn â honiad o dorri rheoliad.

Mae'r darparwr cofrestredig yn uniongyrchol gyfrifol dros gydymffurfiad â'r rheoliadau ac mae'n bosibl iddo gael ei erlyn os nad yw'n gwneud hynny.

## Pa bryd y byddai AGIC yn gofyn am fwy o wybodaeth oddi wrth y darparwr cofrestredig am yr Unigolyn Cyfrifol?

Os oes gan AGIC, ar unrhyw adeg ar ôl penodi Unigolyn Cyfrifol newydd, wybodaeth sy'n peri pryder i awgrymu na allai'r Unigolyn Cyfrifol newydd fod yn addas ar gyfer y swyddogaeth y mae am ei chyflawni, bydd AGIC bob amser yn gofyn am fwy o wybodaeth yn unol â gofynion Rheoliad 10(3) ac 13(1) ac 13(2)(b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (gweler y cyfeiriadau ar dudalennau 7 ac 8):

- gofyn i'r darparwr cofrestredig am gopïau o unrhyw eirdaon a geir ynglŷn â'r Unigolyn Cyfrifol (gan gynnwys geirdaon meddygol)
- dymuno bod yn fodlon drwy dystiolaeth ddogfennol fod y lefel briodol o archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi ei chynnal
- cyfweld yr Unigolyn Cyfrifol yn breifat (pan fo'n briodol).

Gallai hefyd fod angen i AGIC ymweld â'r sefydliad i wirio dilysrwydd y rhain ond dylai fod yn ddull arferol i AGIC ofyn am lungopi yn gyntaf.

## Tystysgrif gofrestru

Pan hysbysir AGIC am newid o ran Unigolyn Cyfrifol, bydd AGIC yn cyflwyno tystysgrif ddiwygiedig i adlewyrchu hyn.

Anfonir y dystysgrif newydd a llythyr eglurhaol at yr Unigolyn Cyfrifol yng nghyfeiriad y sefydliad neu asiantaeth gofrestredig a dylid dychwelyd yr hen dystysgrif i AGIC wedyn.

## Cyfeiriadau

**Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011**

**Rheoliad 10 Ffitrwydd y darparwr cofrestredig**

(1) Rhaid i berson beidio â rhedeg sefydliad neu asiantaeth onid yw'n berson ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i redeg sefydliad neu asiantaeth onid yw'r person hwnnw—

(a) yn unigolyn sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (3); neu

(b) yn gorff, ac—

(i) y corff hwnnw wedi hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru o enw, cyfeiriad a swydd unigolyn yn y corff (sef yr unigolyn y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "yr unigolyn cyfrifol", a'r unigolyn hwnnw'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y corff ac yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth y sefydliad neu'r asiantaeth; a

(ii) yr unigolyn hwnnw'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y gofynion yw—

(a) bod yr unigolyn yn addas o ran ei uniondeb a'i gymeriad da i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth neu, yn ôl fel y digwydd, i fod yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth y sefydliad neu'r asiantaeth;

(b) bod yr unigolyn yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth neu, yn ôl fel y digwydd, o fod yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth y sefydliad neu'r asiantaeth; ac

(c) bod gwybodaeth neu, yn ôl fel y digwydd, ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r unigolyn mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1, 2 a 4 i 8 o Atodlen 2.

(4) Nid yw person yn ffit i redeg sefydliad neu asiantaeth—

(a) os yw'r person wedi'i farnu'n fethdalwr neu os dyfarnwyd atafaeliad ar ei ystâd ac nad yw'r person (yn y naill achos neu'r llall) wedi'i ryddhau, ac nad yw'r gorchymyn methdalwr wedi'i ddirymu na'i ddiddymu neu fod cyfnod o foratoriwm yn gymwys i'r person hwnnw o dan orchymyn rhyddhau o ddyled;

(b) os yw'r person wedi gwneud compównd neu drefniant gyda chredydwyr y person hwnnw ac nad ydyw wedi'i ryddhau mewn perthynas â hynny.

**Rheoliad 13 Y person cofrestredig – gofynion cyffredinol**

(1) Rhaid i'r darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig redeg neu reoli'r sefydliad neu asiantaeth, yn ôl fel y digwydd, gyda gofal, cymhwysedd a sgil digonol, o ystyried maint y sefydliad neu'r asiantaeth, y datganiad o ddiben, a niferoedd ac anghenion y cleifion.

(2) Os yw'r darparwr cofrestredig—

(a) yn unigolyn, rhaid iddo ymgymryd; neu

(b) yn gorff, rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd

o bryd i'w gilydd â pha bynnag hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r sgiliau angenrheidiol i redeg y sefydliad neu asiantaeth.

(3) Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n rheoli'r sefydliad neu asiantaeth ymgymryd, o bryd i'w gilydd, â pha bynnag hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r sgiliau angenrheidiol i reoli'r sefydliad neu'r asiantaeth.

**Rheoliad 33 Hysbysu ynghylch newidiadau**

(1) Rhaid i'r person cofrestredig hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru mewn ysgrifen cyn gynted ag y bo'n ymarferol, os digwydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol neu os bwriedir i unrhyw un ohonynt ddigwydd—

(a) person ac eithrio'r person cofrestredig yn rhedeg neu'n rheoli'r sefydliad neu'r asiantaeth;

(b) person yn peidio â rhedeg neu reoli'r sefydliad neu'r asiantaeth;

(c) pan fo'r person cofrestredig yn unigolyn, yr unigolyn hwnnw yn newid ei enw;

(d) pan fo'r darparwr cofrestredig yn gorff—

(i) newid enw neu gyfeiriad y corff;

(ii) newid cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall y corff;

(e) yr unigolyn cyfrifol yn newid ei enw;

(f) enwi rhywun arall yn unigolyn cyfrifol;

(g) pan fo'r darparwr cofrestredig yn unigolyn, penodi ymddiriedolwr mewn methdaliad, neu wneud compównd neu drefniant gyda chredydwyr;

(h) pan fo'r darparwr cofrestredig yn gwmni neu'n bartneriaeth, penodi derbynnydd, rheolwr, datodwr neu ddatodwr dros dro; neu

(i) newid neu ehangu mangre'r sefydliad yn sylweddol, neu gaffael mangre ychwanegol, y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion y sefydliad.